

ymdawelu wrth noswyllo wedi holl gyffro'r dydd, ond darllen?

Cael fy llyfr cyntaf yn anrheg

Darllenwyr awchus oedd fy mam a'm nain, ond roedd hi'n anodd iawn dod o hyd i lyfrau pan fûm yn blentyn. Ni chofiaf siop lyfrau yn ystod y rhyfel. Ar ôl 1945, pan ddaeth rhai i'r golwg, roedd papur cyn brined nes oedd yn rhaid i'r perchennog ofyn am bapur o unrhyw fath gyda'r un pwysau â'r llyfr cyn i neb gael ei brynu. Am nad oedd yn arfer gan ffermwyr ddarllen, daeth ambell i lyfr i'n meddiant i'w gadw neu i'w gyfnewid. Cefais yr awdur Wilhelm Busch yn dra diddorol. Y mae gennyf un gyfrol ganddo o hyd sy'n dyddio o 1924 ac a gafodd ei hail-gyhoeddi ym 1957. Llyfrau sylweddol gyda hanesion hynod o smala ar fydr a darluniau i gyd-fynd â'r chwedlau anhygoel yw'r cynnwys o hyd. Gwelai Wilhelm Busch bobl â'u gwendidau. O gwmpas bywyd fel y mae y byddai'n rhoi moeswers yn ddoniol a deheuig. Cefais fy llyfr cyntaf yn anrheg ar fy mhenblwydd yn 8 oed. Stori ddifyr am fywyd mewn ysgol breswyl breifat oedd hi. Gwerthfawroga i llyfr gymaint nes i mi ei ddarllen lawer o weithiau ar hyd fy mlyneddodd cynnar. A pham roedd fy mam wedi penderfynu prynu llyfr yn anrheg i mi, er ei bod yn anodd iawn i'w wneud ddwy flynedd cyn diwedd y rhyfel?

Yr Hogyn Pren

Aeth mam i Essen, sef tref fawr Gogledd yr Almaen, er mwyn nôl fy nain, oherwydd ei bod wedi dod yn beryglus i barhau iddi fyw yno efo'r holl fomio. Cefais aros yn nhy person y plwyf gyda Fraulein Viktoria, chwaer ein hofferiad, yn fy ngwarchod. Treuliais wyliau wrth fy modd yn ei chwmini. Yn ddiweddarach, daethom yn ffrindiau pennaf hyd nes iddi hi farw yn ei nawdegau, ddeng mlynedd yn ôl. Sut i ddiddori plentyn oedd cwestiwn mawr i'r ferch ddi-briod, yn sicr. Dechreuodd gan ddewis llyfr plentyn o'r cwpwrdd llyfrau a safai yn y coridor Llyfrgell y Plwyf a oedd gyda rhyw gant neu lai o gyfrolau ynddo fo. 'Das holzerne Benegle' (Yr Hogyn Pren = Pinocio) oedd y teitl. Roeddwn i newydd ddysgu darllen (yn yr Almaen nid oedd plant yn dechrau'r ysgol nes yn chwe mlwydd oed), a dyma'r llyfr cyntaf i mi gydio ynddo erioed. Edrychais ar y daluniau du a gwyn i gychwyn a des ar draws llun o neidr fawr. Wedi deall y capsynau, dyma fi yn dechrau darllen o dan y llun er mwyn cael gwybod yr hyn oedd yn digwydd ynglŷn â'r ymlusgiad peryglus. A dyma ddarllen a darllen hyd at y diwedd ac wedi mwynhau'r profiad o ddarllen llyfr sylweddol, ond eto heb gael gwybod am hanes y neidr. Roedd yn rhaid dechrau ar y dechrau - yn amlwg. Gwnes hyn gyda phleser gan ddarllen y llyfr cyfan y tro hwn. Dyma'r dechrau i mi wirioni ar ddarllen llyfrau a'r stori hon oedd y rheswm i mi gael llyfr yn anrheg. Ni wnes stopio ers hynny.

Er mwyn gwella fy niffyg Saesneg pan es i Loegr i weithio ym 1954, dewisais gyfrolau o'r llyfrgell oeddwn wedi eu darllen yn fy mamiaith o'r blaen, gwaith megis Graham Greene. Pan symudais i Gymru i fyw yn 1984 a dechrau dygu'r iaith, penderfynais beidio â darllen dim Saesneg (ar wahân i'r *Daily Post*)



Markt Rettenbach/Allgäu - pentref lle'm magwyd (nodir fy nghartref â'r lythyren x)

nac Almaeneg cyn meistrolï'r iaith Gymraeg. Cefais hyn yn boen ar y dechrau, ond mwynheais y profiad yn fwyfwy, gan ddysgu'r iaith a chant a mil o bethau eraill wrth barhau am 10 mlynedd cyn ail-gydio yn llyfrau'r ddwy iaith arall unwaith yn rhagor.

Tybed a yw'r ymennydd yn gwneud cysylltiad rhwng darllen ac ysgrifennu? Teimlais yr awydd i gydio mewn ysgrifbin a chofnodi hyd yn oed yn blentyn. Dechreuais ysgrifennu dyddiadur pan yn un ar ddeg mlwydd oed. Yn ystod yr haf canlynol, cefais fynd am dro i olygfan drawiadol ar ben bryn coediog uwchben cymer yn y Swistir efo ffrindiau yng nghwmni eu tad. Cynheuwyd tân i bobî tatws a chafwyd hwyl di-ben-draw. Dyma fi yn gofyn i'r dyn a oedd ganddo fo ddarn o bapur? Meddwl bod angen arnaf fynd i'r toiled oedd ef. 'Oh na! Dim ond eisio ysgrifennu i lawr pa mor braf yw'r lle yma' oedd fy ateb.

Cyrraedd Ysbyty Ifan ym 1984

Un dda am lunio llythyrau oedd mam ac roedd yn ffodus i mi ddechrau ymhyfydu yn y grefft hon hefyd. Cyn cyrraedd Ysbyty Ifan yma yng Nghymru ym 1984, roeddwn i wedi byw mewn pedwar ar ddeg ar hugain o gyfeiriadau post gwahanol. Wrth symud o le i le y mae rhywun yn gwneud ffrindiau, yna yn colli rhai a chasglu ychwaneg. Heb gadw cysylltiadau, colli'r cyfeillgarwch. Roedd ysgrifennu llythyrau manwl yn un ffordd o warchod perthynas arbennig â ffrind, lle bynnag y mae'n byw. Difyrwch i mi yw ysgrifennu o hyd, hobi defnyddiol iawn i ddadflino, yn enwedig ysgrifennu â llaw. Gweithred yw a fedr hyd yn oed yr henoed fwynhau.

Onid yw hi'n rhyfeddol sut y gall ein gorffennol pell ddal i effeithio arnom yn hyfryd? Diolchaf am fagwraeth dda, gyrfa ddiddorol, a henaint wrth fy modd.

YN EISIAU

Llythyrau diddorol gan enwogion neu fel arall naill a'i Gymraeg neu Saesneg. Pris i'w drafod. Cysyllter ar 01745 813173

Alun a Dirgelwch y Gerdd Hela

(Parhâd o dudalen 5)

Jenkinsiaid y Gelli neu Flaen Corrwg? Neu a oedd ganddo gyfeillion oedd yn casglu ar ei gyfer, megis Lleyshon Jones, ficer Glyn-corrwg yr oedd ei blwy yn ymestyn i Bont Walbi yng Nghwm Nedd. Beth bynnag oedd y ffynhonnell, gweodd Alun gerdd sydd yn parhau yn hynod o boblogaidd.

Lleoliad y manau a enwir yn Cerdd Hela, gyda chyfeimodau'r Grid Cenedlaethol.

Mapiau'r OS Explorer 166 L Landranger 170 OS 160 170

Y Gelli 874962 E Blaen y Corrwg 886996L Craig y Byllfa 966024 E

Cwm-aman 996995 L Cwm Gwyngul ?? Cefn Gwyngul (man uchaf) 102974 L

Garreg Lwyd 921017 E Craig y Llyn 912035 E Cwm Grefelych 900059 E OS170

Pont Walbi 891067 OS160 Aberpergwm 8659061 OS160 Gamgoch 905061E

Cyfeiriadaeth

i. Ceinion Alun, *Golygwyd gan y Parch G. Edwards M.A.* (Gutyn Padam) 1851.

ii. Glanffrwd, Llanwynno, *Gwasg Prifysgol Cymru 1949* (Gwreiddiol 1888).

iii. Horn and Hound in Wales, *Edwin Price*, 1891 (Copi yn y Llyfrgell Genedlaethol).

iv. Alun, *D. Gwenallt Jones, Llên Cymru* 1951, t.209-217.

vi. Bywyd a Gwaith John Blackwell (Alun), 1797-1840. *Gwendoline Guest*, Traethawd M.A. (Bangor) 1971.

Gelli and the Jenkin Family, a The Gelli Hounds. Afan Uchaf, *Roger Lee Brown*, The Journal of the Cymer Afan and District Historical Society, Vol IV, 1981, t.1-29.

Yr wyf yn ddiolchgar i Mr Merfyn Walters, Abergwrelych House, Pont Walby, a Mrs Margaret Roderick a fagwyd ar fferm Tydraw, Blaenycwm (Rhondda) am gymorth i leoli'r gwahanol fannau a nodir yn y gerdd.

Daniel Owen: TAITH DEWYSEDIG GANOL-DREF

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol mi fydd un o'n haelodau sef Phillip Lloyd yn cynnig taith fer i ystafedd goffa Daniel Owen, y ffenestr liw yn llyfrgell y dref, cerflyn w. Goscome John o Daniel wenn a phaentiad hynod ddanlenol ar oll yn gysylltiedig â 'tad y nofel gymraef'. di-dal.Sawl taith, manylion a sicrhau lle ym mhabell cyngor sir y fflint ar faes yr eisteddfod.

www.bbc.co.uk/cymru/gogleddddwyrain/safle/wyddgrug/pages/philip_lloyd_ffilm.shtml